



Cyngor Sir Fynwy
Strategaeth Argyfwng Hinsawdd
Hydref 2019



monmouthshire
sir fynwy

Teitl	Strategaeth Argyfwng Hinsawdd
Diben	Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymateb y cyngor i'r argyfwng hinsawdd y'i datganwyd ym Mai 2019
Perchennog	Cyngor Sir Fynwy
Wedi'i gymeradwyo gan	Y Cyngor Sir, 24 ^{ain} o Hydref 2019
Dyddiad	Hydref 2019
Rhif Fersiwn	1.0
Statws	Terfynol
Amllder Adolygu	Blynyddol
Dyddiad Adolygu Nesaf	Medi 2020
Ymgynghoriad	Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf (ar agor i bob aelod) ar y 26 ^{ain} o Fedi 2019

Rhagair

Diben Cyngor Sir Fynwy yw creu cymunedau cynaliadwy a chyfnerth. Mae hyn yn teimlo'n fwy perthnasol nag erioed. Yn 2019, ni all unrhyw un fod yn ddall i'r bygythiad y mae newid hinsawdd yn peri i'n hecosystemau, ein hamgylchedd lleol a'n ffordd o fyw.

Os ydym i gael siawns o arafu'r cynnydd yn nhymeredd y Ddaear, mae angen i ni weithredu nawr. Yn gynharach y flwyddyn hon roedd cynghorwyr yn Sir Fynwy'n unfrydol yn datgan argyfwng hinsawdd. Rydym yn bwriadu chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael a'r mater hwn a byddwn yn gweithio â chymunedau a busnesau lleol er mwyn helpu iddynt leihau eu hallyriadau. Bydd hyn yn gofyn am ymgysylltiad, cynnwys y gymuned ac ymrwymïadau oddi wrth drydydd partïon.

Rydym wedi gwneud dechreuad:

- Rydym wedi galw am ein cronfa bensiwn i roi'r gorau i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil ac rydym wedi gweld canran y gronfa sydd wedi'i buddsoddi mewn cwmnïau felly'n disgyn o 9.10% i 6.95% ers 2018;
- Rydym wedi adeiladu fferm solar sy'n cyfrannu tuag at y cyfanswm o £650,000 o ynni adnewyddadwy yr ydym yn rhoi i mewn i'r grid cenedlaethol bob blwyddyn;
- Mae mwy na 99% o'r ynni yr ydym yn ei brynu yn dod o ffynonellau adnewyddadwy.

A byddwn yn parhau i wneud mwy:

- Datblygu rhaglen fuddsoddi i helpu ein gwasanaethau i drosglwyddo i ddyfodol carbon isel;
- Rhagbrofi defnydd ceir pŵer hydrogen sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu'n lleol;
- Treialu datrysiadau digidol sy'n gwneud hi'n haws i bobl teithio trwy ddefnydd gwell o allu trafnidiaeth gyfredol;
- Sefydlu rhwydwaith o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydanol.

Byddwn yn gwneud hyn yn ogystal â pharhau i gynnig y gwasanaethau sy'n ffurfio rhan o'r sylfeini y mae ein cymunedau wedi'u hadeiladu arnynt. Gwyddom na fydd hyn yn hawdd. Mae angen meddwl beiddgar ac nid oes gennym ni'r atebion i gyd eto. Bendith Sir Fynwy yw cael tapestri cyfoethog o bobl, busnesau a grwpiau cymunedol sy'n ofalgar ac yn ymroddedig sy'n creu'r sir. Nawr, efallai mwy nag unrhyw bryd yn y gorffennol, mae angen i bawb cefnogi'r ymrwymiad hwn a chwarae eu rhan i ddiogelu yfory gwell.



**Y Cynghorydd Sir Jane Pratt,
Aelod Cabinet dros Isadeiledd a Gwasanaethau Cymdogaeth**

Sir Fynwy 2030: Cyngor Carbon Niwtral

Pam ydy hyn yn bwysig?

Un o heriau mwyaf ein cymdeithas yw mynd i'r afael â newid hinsawdd a symud i economi carbon isel. Mae tymereddau cynyddol yn dod â risgiau cynyddol i'n cymunedau ac maent yn achosi niwed hirdymor ac efallai parhaol i ecosystemau ein planed, gydag effeithiau lleol sylweddol megis llifogydd a cholli rhywogaethau.¹ Erbyn 2030 mae'r cyngor hwn yn anelu at leihau ei allyriadau carbon net i ddim yn ogystal â pharhau i gynnig gwasanaethau lleol pwysig i'n cymunedau.

Un o brif achosion newid hinsawdd yw allyriadau carbon o danwyddau ffosil. Y consensws gwyddonol yw taw gweithred ddynol ers diwydiannu yw'r ffactor mwyaf yn y cynhesrwydd diweddar ar arwyneb y Ddaear. Bydd angen gweithred a dyfeisgarwch pobl i'w atal.

Mae newid hinsawdd, datgoedwigo ac amaethyddiaeth yn golygu bod gallu'r blaned i storio carbon yn lleihau. Mae pridd yn cael ei erydu ar gyfradd gyflymach nag y gellir ffurfio pridd newydd tra bod iâ sy'n toddi yn cyfrannu at lefelau môr sy'n codi ac yn rhyddhau carbon a oedd wedi ei ddal o dan dir oedd wedi rhewi. Mae'r newidiadau hyn yn arwain at gadwyni sy'n ailadrodd ei gilydd lle bod tymereddau cynyddol yn cyflymu dirywiad tir a phridd trwy sychder, diffeithdiro a lefelau môr sy'n codi. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu cyfaint y nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau gan y tir, sy'n cyflymu cynhesu byd eang yn bellach.

Mae'n Amser Ymateb

Os ydym i gael unrhyw siawns o fynd i'r afael â newid hinsawdd ac arafu'r cynnydd yn nymheredd y Ddaear, mae yna ond cyfle byr ar ôl i weithredu. Mae'r IPCC wedi dangos y bydd cynnydd o dros 1.5°C yn effeithio gallu'r blaned i gynnal bywyd dynol fel y gwyddom ac, yn hollbwysig, heb newid sylweddol, y cyrhaeddir y ffigwr hynny cyn 2030. Yn syml, nid oes gennym amser hir i weithredu.

Ym Mai 2019 pasiodd Cyngor Sir Fynwy cynnig yn unfrydol yn datgan argyfwng hinsawdd². Mae hyn yn gosod ymrwymiad polisi clir i'r cyngor i:

- ymdrechu i leihau ei allyriadau carbon net i ddim yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o 2030;
- annog a chefnogi preswylwyr a busnesau i ymgymryd â gweithrediadau eu hunain er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon;
- gweithio â phartneriaid ledled y sir a chynghorau a sefydliadau eraill er mwyn helpu datblygu a gweithredu dulliau arferion gorau er mwyn cyfyngu cynhesu byd eang i lai na 1.5 °C.

Rhaid gwneud hyn yn ogystal â chynnig y gwasanaethau sy'n creu'r sylfaeni cymdeithasol y mae ein cymunedau wedi'u hadeiladu arnynt ac ni ddylid unrhyw un fod hebddynt. Mae'r rheini'n cynnwys yr ymrwymadau o fewn Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol y cyngor. Ein sialens yw darganfod ffordd i fodoli o fewn y man diogel rhwng ffiniau ecolegol y blaned yn ogystal â pharhau i gynnig y sylfeini cymdeithasol hyn³. Bydd yr Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth yn cadeirio grŵp er mwyn goruchwyllo datblygiad a sicrhau bod cynlluniau'r cyngor yn cael eu herio'n barhaol er mwyn lleihau carbon ac ymgorffori technoleg a chysyniadau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn gofyn am feddwl beiddgar. Nid oes gennym ni'r atebion i gyd ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i chwilio am y bobl, y syniadau a'r dystiolaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio ac yn gweithredu hyn yn Sir Fynwy.


Manteision Gweithredu

Yn ogystal â'r angen byd eang a moesol i weithredu ar newid hinsawdd gallwn hefyd ddisgwyl gweld amryw o fanteision lleol wrth symud i gymdeithasol carbon mwy is:

- Biliau ynni llai i breswylwyr a busnesau
- Ansawdd aer gwell a'r gwelliannau mewn iechyd bydd yn deillio o hynny
- Amserau cymudo mwy byr rhwng y cartref, gwaith ac ysgol
- Defnydd mwy eang o deithio llesol megis cerdded a seiclo sy'n gallu helpu gwella iechyd pobl
- Llai o niwed i'r amgylchedd lleol o sychder, llifogydd a thân
- Galw cynyddol ar gyfer technolegau gwyrdd a'r potensial am gynydd mewn swyddi yn y sectorau hyn yn deillio o hynny
- Rheoli cynefinoedd yn well, bioamrywiaeth gynyddol a chreu llefydd gwyrdd
- Ymgysylltiad cynyddol rhwng pobl a'r amgylchedd a dinasyddion sy'n fwy cyfrifol yn fyd eang

Allyriadau Carbon Lleol

Mater byd eang yw allyriadau carbon ond mae gennym ni i gyd rhan i'w chwarae. Os ydym am leihau ein hallyriadau net yna mae angen i ni ddeall beth ydyn nhw nawr – o fewn ein sir ac ein sefydliad. Mae allyriadau fesul person ledled Sir Fynwy dros lefelau'r DU. Ers 2005 mae allyriadau carbon net o fewn y sir wedi lleihau gan 28% o 903 cilotunnell i 648 cilotunnell fesul blwyddyn tra bod ein poblogaeth wedi cynyddu 7%⁴. Er bod yr allyriadau wedi lleihau, mae hyn dal yn cyfateb i bwys 54,000 o fysys deulawr Llundain.




(Ffynhonnell: allyriadau deuocsid awdurdod lleol y DU, Ystadegau Cenedlaethol)

Mae'r tueddiad disgynnol yn adlewyrchu tueddiad tebyg ledled y DU o ganlyniad i bethau megis y cynnydd mewn defnydd egni mwy glân. Dros yr amser yma rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn y carbon sy'n cael ei ddal yn y sir o 17 i 43 cilotunnell, ond mae'r cyfanswm sy'n cael ei ddal yn llai na 7% o'r holl CO₂ sy'n cael ei gynhyrchu. Os oedd datgarboneiddio yn parhau ar y gyfradd hon ni fyddwn yn niwtral mewn carbon tan ar ôl 2050, sy'n rhy hwyr i atal newid hinsawdd trychinebus. Mae'n rhaid i ni wneud mwy.

Mae allyriadau carbon yn y sir yn dod o amryw o ffynonellau gan gynnwys diwydiant, amaethyddiaeth, trafnidiaeth ffordd a chartrefi. Y cyfrannwr sengl mwyaf yw trafnidiaeth ac yn benodol trafnidiaeth ffordd. Dangosir hyn yn y siart isod⁶:

Ffynhonell Allyriadau Sir Fynwy



Manylion Detholedig	Ct
Defnydd Ynni Diwydiannol	143
Amaethyddiaeth	32
Defnydd Ynni Domestig	164
Trafnidiaeth Ffordd	338
Reilffordd	6

(Ffynhonell: allyriadau deuocsid awdurdod lleol y DU, Ystadegau Cenedlaethol)

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymdrechu i leihau ei allyriadau ei hun wrth weithio â phartneriaid, gan gynnwys aelodau o'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, busnesau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn lleihau allyriadau a gwella daliad carbon ledled yr holl sir o bethau fel coed, llystyfiant a seilwaith gwyrdd sy'n helpu atafaelu a storio carbon. Mae data o'n sefydliad ni ein hunan yn dangos ein bod yn cynhyrchu oddeutu:

- 8,700 tonnall o asedau statig megis adeiladau a golau stryd (pwys 725 bws deulawr)
- 3,000 tonnall o gerbydau'r cyngor megis bysys a thryciau sbwriel, yn ogystal â cheir sy'n cael eu gyrru gan swyddogion a chynghorwyr wrth weithio (250 bws deulawr)
- 15,000 tonnall o allyriadau o weithgynhyrchu'r nwyddau a chyflenwadau yr ydym yn eu prynu (1,250 bws deulawr).


Darlun anghyflawn yw hwn o hyd a byddwn yn gwella ein dealltwriaeth wrth i'n gwaith datblygu.

Rydym wedi gwneud dechreuad...ond mae gennym ni lawer mwy i'w gwneud

Mae'r Cyngor eisoes yn cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon. Mae'r ffeithlun yn dangos ychydig o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn Sir Fynwy⁷.

GWEITHREDU AR GARBON

RYDYM WEDI GWNEUD DECHREUAD...



Mae **19.3%**
o'r trydan yr ydym yn
ei ddefnyddio wedi dod
o'n ynni adnewyddadwy
ein hun gan gynnwys
ein fferm solar



Mae **99.5%**
o'r ynni y mae'r cyngor
yn ei brynu'n dod o
ffynonellau
adnewyddadwy



Ailgylchir **64%**
o wastraff cartref



Mae allyriadau carbon
o adeiladau a golau
stryd wedi lleihau
28% dros y 5
mlynedd diwethaf



Rydym yn gweithio gyda
Riversimple er mwyn
rhagbrofi 20 car sydd wedi'u
pweru gan hydrogen yn Y Feni



Mae ein cronfa bensiwn
yn lleihau'r cyfanswm y
mae'n buddsoddi mewn
tanwyddau ffosil



Mae ein cynhyrchiant
adnewyddadwy'n dod â
dros **£650,000** mewn
incwm bob blwyddyn



Rheolir **2 filiwn**
metr sgwâr o laswelltir
mewn modd cynaliadwy
er mwyn annog peillwyr



Compostir **11,000**
tunnell o wastraff
pob blwyddyn

...OND MAE GENNYM NI LAWER MWY I'W GWNEUD



monmouthshire
sir fynwy

Cipolwg ar ein Hamcanion

Mae ein cynllun gweithredu yn cwmpasu deg amcan eang a fydd yn cyflawni lleihad net mewn allyriadau carbon erbyn 2030. Mae pob un o'r amcanion hyn yn cynnwys gweithrediadau ar gyfer yr awdurdod lleol bydd yn lleihau allyriadau'r cyngor ei hun, yn ogystal â gweithrediadau bydd yn lleihau allyriadau carbon ledled y sir y bydd angen eu cymryd ymlaen mewn partneriaeth â'r gymuned, yn ogystal â chymau y gall pawb eu cwblhau.

Nid eitem gyflawn yw'r cynllun gweithredu sydd wedi'i gynnwys fel atodiad i'r strategaeth. Caiff ei ddiweddarau a'i hadroddi'n flynyddol, ond bydd y gweithrediadau'n barhaol, wrth i ni edrych ar draws y byd am esiamplau o arferion ymyl blaen sy'n gallu ein helpu i gyflymu ein datblygiad. Mae'n cynnwys asesiad blaenorol, lefel uchel o effaith, cost a dichonoldeb. Gweithrediadau cost isel yw'r rheini sydd o dan £5,000, rhai canolraddol yw'r rheini rhwng £5,000 a £50,000 a rhai cost uchel yw'r rheini sydd dros £50,000. Ein blaenoriaeth fydd rhoi egni a buddsoddiad i'r rheini sy'n cynnig y cydbwysedd mwyaf manteisiol o leihau carbon a dichonoldeb. Mae angen i ni hefyd sicrhau ychydig weithrediadau cynnar er mwyn cael y budd cronus mwyaf posib dros y deuddeg mlynedd nesaf.

Ynni ac Adeiladau Lleihau cyfanswm yr ynni y defnyddir ar gyfer adeiladau a golau stryd	Ynni Adnewyddadwy Cyflymu'r symudiad o danwyddau ffosil i ynni adnewyddadwy
Mannau Gwyrdd Creu a rheoli manau gwyrdd er mwyn amsugno carbon a chynnig gwytnwch yn erbyn newid hinsawdd	Yr hyn yr ydym yn ei Brynu Lleihau carbon gan feddwl yn ofalus am bryd a beth yr ydym yn ei brynu a'r gost holl fywyd
Gwastraff Lleihau gwastraff gan annog pobl i leihau, aildefnyddio ac ailgylchu mwy	Teithio Llesol Annog a'i gwneud hi'n haws i bobl i gerdded ac i seiclo yn hytrach na gyrru
Trafnidiaeth fwy Gwyrdd Lleihau effaith cerbydau ac annog defnydd cerbydau trydan a hydrogen	Trafnidiaeth Gyhoeddus Annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir
Addysg a chymryd rhan Helpu pobl i ddeall newid hinsawdd a'r hyn y gallent eu gwneud er mwyn gwneud gwahaniaeth	Addasu i'r Hinsawdd Paratoi ac addasu ar gyfer effaith newid hinsawdd

Chwarae eich rhan

Ni all y Cyngor cyflawni'r Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd ar ei ben ei hun. Mae angen partneriaid eraill i ymuno â ni i leihau allyriadau carbon ledled y sir. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn gweithio â phartneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus dros y misoedd sydd i ddod.

Rydym yn gwerthfawrogi brwdfrydedd, egni ac arbenigedd preswylwyr Sir Fynwy'n fawr sydd â chymaint i gyfrannu, ac rydym yn cynllunio cydweithio â'n cymunedau a phartneriaid eraill er mwyn gweithio gyda'n gilydd ar ein cynllun gweithredu. Dechreuodd y broses ar ddiwedd mis Gorffennaf

2019 gyda'r gweithdy Pencampwyr Hinsawdd Cymunedol er mwyn dechrau adnabod y meysydd y gallent ein helpu ni i gyflawni.

Mae yna bethau y gall pob preswilydd, ymwelwr neu weithiwr yn Sir Fynwy eu gwneud er mwyn chwarae eu rhan mewn lleihau allyriadau carbon ac ein helpu i arafu newid hinsawdd. Rhan o'r broblem ydym ni i gyd, ond gallem ni i gyd fod yn rhan o'r datrysiad hefyd.

Addasu i'r Hinsawdd

Hyd yn oed os oeddem ni'n atal allyriadau carbon i gyd heddiw, mae dal angen i ni wynebu effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes yn digwydd. Dros yr ychydig ddegawdau sydd i ddod, rydym yn wynebu lefel o newid hinsawdd beth bynnag fydd y weithred i leihau ein hallyriadau nawr. Mae'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd dros Gymru o 2012 yn rhagweld hafau mwy poeth a sych, gaeafau mwy cynnes a gwlyb a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol.

Mae yna lawer o bethau y mae'r cyngor yn eu gwneud er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer effeithiau newid hinsawdd. Yn y blynyddoedd diweddar, mae gwasanaethau'r cyngor wedi meddwl am y risgiau posib i'w gwasanaethau, er mwyn dechrau meddwl am sut i addasu i'r risgiau hyn. Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol rôl allweddol i chwarae yn sicrhau bod ein cymunedau'n gynaliadwy ac yn gydnerth i effeithiau newid hinsawdd.

Gyda chynnydd mewn glawiadau gaeaf a lefel môr sy'n cynyddu, mae llifogydd yn debygol o gynyddu, a fydd o bryder arbennig mewn rhannau o Sir Fynwy. Mae llawer o'r gwaith i gydweithredu ymatebion argyfwng wedi'i drefnu trwy Fforwm Cydnerthedd Lleol Gwent (FfCLIG). Byddwn yn parhau i weithio â phartneriaid ar y FfCLI i sicrhau ein bod yn barod am ddigwyddiadau tywydd difrifol.

Os ydych yn byw rhywle sy'n dueddol o gael llifogydd, sicrhewch eich bod yn gwybod beth i'w gwneud. Darganfyddwch mwy yma: <https://www.monmouthshire.gov.uk/services/planning-for-emergencies/flooding/>

Cadwch lygad ar ein perfformiad

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod os yw'r gweithrediadau y byddwn yn eu cymryd er mwyn lleihau newid hinsawdd yn gwneud gwahaniaeth i'n hallyriadau. Gallwn fesur maint o garbon y bydd rhai o'r gweithrediadau'n ei arbed. Serch hynny, ni allwn fesur arbedion carbon rhai o'r gweithrediadau, ond gallwn o leiaf sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn yr ydym wedi dweud y byddwn yn ei wneud.

Byddwn yn dechrau grŵp gwaith sydd wedi'i arwain gan aelodau, i'w gadeirio gan yr aelod cabinet (gyda chymuned a swyddogion) bydd yn cwrdd yn chwarterol. Caiff diweddariadau ynglŷn â datblygiad y gweithrediadau eu cyfuno pob tair mis a'u hadrodd i'r grŵp gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn symud ymlaen yn dda.

Ein hymrwymiad i Weithredu

I fynd i'r afael â newid hinsawdd, bydd angen cydweithrediad ac ymroddiad nifer o bobl. Rydym yn benderfynol i chwarae ein rhan ac mae'r gweithrediadau y mae Cyngor Sir Fynwy wedi'i ymrwymo i yn cynnwys:

- Rydym wedi adeiladu fferm solar sy'n cyfrannu tuag at £650,000 o egni adnewyddadwy i'r grid cenedlaethol pob blwyddyn, a byddwn yn buddsoddi mewn mwy o gynlluniau adnewyddadwy pan fydd gan y grid cenedlaethol mwy o le
- Rydym wedi galw am ein cronfa bensiw i roi'r gorau i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil ac rydym wedi gweld canran y gronfa sydd wedi'i buddsoddi mewn cwmnïau felly'n disgyn o 9.10% i 6.95% ers 2018;
- Datblygu rhaglen fuddsoddi er mwyn helpu ein gwasanaethau i drosglwyddo i ddyfodol carbon isel
- Trosglwyddo fflyd drafnidiaeth y cyngor i gerbydau hybrid, trydanol a hydrogen wrth i'r rhain ddod ar gael
- Rhagbrofi defnydd ceir pŵer hydrogen sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu'n lleol;
- Treialu datrysiadau digidol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth cenedl nesaf sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl teithio gan wneud defnydd gwell o allu trafnidiaeth sy'n bodoli eisoes;
- Sefydlu rhwydwaith o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydanol.
- Recriwtio aelod o staff i ddatblygu, hyrwyddo a sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau teithio llesol er mwyn lleihau ymdeithiau car yn ogystal â chynyddu cerdded a seiclo
- Gosod nenlenni PV ym meysydd parcio sy'n berchen i'r cyngor er mwyn pweru pwyntiau gwefru cerbydau trydanol gydag ynni adnewyddadwy
- Plannu 10,000 coeden newydd erbyn 2022
- Gwneud pob un o'n adeiladau'n orsafoedd ailenwi dŵr a chael gwared ar blastig untro o bob eiddo sy'n cael ei redeg gan y cyngor
- Hyrwyddo Sir Fynwy fel man profi i gwmnïau sy'n edrych i dreialu technolegau carbon isel mewn lleoliad cefn gwlad

Atodiad A

Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd



Lleihau defnydd ynni

Lleihau cyfanswm ynni y defnyddir ar gyfer adeiladau a golau stryd

Gweithred i leihau allyriadau CSF	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Bydd adeiladau newydd y cyngor yn gweithredu gydag allyriadau carbon net o ddim erbyn 2025 neu'n defnyddio gwrthbwysau carbon lle ni ellir cyflawni hyn	Isel	Uchel	Canolradd
Sefydlu gwelliannau effeithlonrwydd ledled ystâd gyfredol y cyngor erbyn 2022	Canolradd	Uchel	Canolradd
Lleihau allyriadau CO2 o'n cyflenwad ynni	Isel	Uchel	Haws
Caiff pob golau stryd sydd ar ôl eu trosi i fylbiau LED	Isel	Canolradd	Haws
Bydd pob bwlb o fewn adeiladau sy'n berchen i'r cyngor yn LED	Isel	Canolradd	Haws
Gweithred i leihau allyriadau'r Sir	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Defnyddio polisi cynllunio er mwyn mynnu ar safonau egni uwch ar gyfer adeiladau newydd	Canolradd	Isel	Anos
Lleihau allyriadau carbon ar draws pob adeilad gwasanaeth cyhoeddus yn y sir mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus	Canolradd	Isel	Haws
Hyrwyddo lleiafswm safonau egni mewn llety sydd o dan berchnogaeth breifat	Isel	Isel	Canolradd
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Gwnewch yn siŵr bod ataliadau drafft ac ynysiad waliau ceudod yn eich cartref – arbedwch arian ac ynni. https://www.energysavingtrust.org.uk/home-insulation			
Gall bethau syml megis troi'r goleuadau i ffwrdd, peidio â gadael pethau ar fodd parod a dim ond berwi'r dŵr sydd wir ei angen arnoch yn y tegell gwneud gwahaniaeth go iawn. HYPERLINK "https://www.energysavingtrust.org.uk/home-energy-efficiency"			
Gall deall sut mae eich rheolyddion gwres yn gweithio a defnyddio thermostatau'n gywir arbed ynni.			
Os ydych yn defnyddio peiriant golchi llestri, sicrhewch eich bod dim ond yn ei ddefnyddion pan yw'n llawn			
Sicrhewch fod eich peiriant golchi dillad yn llawn a'ch bod yn sychu dillad ar lein yn hytrach nag yn y peiriant sychu os allwch.			



Defnyddio ynni adnewyddadwy Cyflymu'r symudiad o danwyddau ffosil i ynni adnewyddadwy			
	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonold eb
Gweithred i leihau allyriadau CSF			
Adeiladu a gweithredu dwy fferm solar newid – yn ddarostyngedig i allu'r grid cenedlaethol	Uchel	Uchel	Canolradd
Datblygu cynigion ar gyfer cynllun rhwydwaith gwresogi	Uchel	Uchel	Canolradd
Datblygu Cynllun Egni Deallus System Gyfan fel rhan o Arddull Rhanbarth Prifddinas Caerdydd	Uchel	Uchel	Anos
Gosod nenlenni PV ym meysydd parcio sy'n berchen i'r cyngor er mwyn pweru pwyntiau gwefru cerbydau trydanol gydag ynni adnewyddadwy	Canolradd	Uchel	Canolradd
Gweithred i leihau allyriadau'r Sir			
Gorfodi ynni adnewyddadwy ar ddatblygiadau sector preifat	Canolradd	Isel	Anos
Nodi ardaloedd ar gyfer cynhyrchiad adnewyddadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd	Canolradd	Isel	Canolradd
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Trosglwyddwch eich cyflenwr ynni i gontract ynni adnewyddadwy. https://www.moneysupermarket.com/gas-and-electricity/green-energy-tariffs/			
Darganfyddwch os allech chi osod paneli solar neu ynni adnewyddadwy arall yn eich cartref. https://www.energysavingtrust.org.uk/renewable-energy			
Ystyriwch yr hyn yr hoffech eich arbedion neu eich pensiynau i fuddsoddi mewn. https://www.finder.com/ca/ethical-savings-accounts			



Rheoli mannau gwyrdd Er mwyn lleihau defnydd ynni, amsugno carbon a bod yn gydnerth			
Gweithred i leihau allyriadau CSF	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Cael gwared ar ddefnydd compost mawn gan ein timau cynnal a chadw tir	Isel	Isel	Haws
Ehangu gwaith rheoli sy'n gyfeillgar i beillwyr a lleihau amledd/ graddfa torri glaswellt lle bo'n briodol ac yn ddiogel	Isel	Isel	Haws
Cynhyrchu ynni adnewyddadwy o doriadau gwair trwy dreulio anaerobig	Isel	Isel	Canolradd
Plannu 10,000 coeden newydd erbyn 2022	Isel	Canolradd	Canolradd
Defnyddio ein ffermydd sirol fel esiamplau o amaethyddiaeth gynaliadwy	Isel	Canolradd	Canolradd
Defnyddio technolegau adeilad carbon isel megis waliau neu doeau gwyrdd	Isel	Canolradd	Canolradd
Gweithred i leihau allyriadau'r Sir	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Hyrwyddo rheolaeth dir ac arferion amaethyddol cynaliadwy, gan gynnwys rheoli maeth/ pridd a rheoli llifogydd yn naturiol	Uchel	Uchel	Anos
Cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwneud ecosystemau'n fwy cydnerth	Canolradd	Canolradd	Canolradd
Plannu mwy o goed a chynyddu ardal coetir, gwella a chynyddu rheolaeth goetir a chadw coetir sydd eisoes yn bodoli	Canolradd	Canolradd	Canolradd
Sicrhau mwy o seilwaith gwyrdd trwy ddatblygiad	Isel	Isel	Haws
Hyrwyddo a chefnogi tyfu bwyd yn lleol	Isel	Canolradd	Canolradd
Lleihau milltiroedd bwyd trwy weithio â ffermwyr lleol er mwyn marchnata bwyd lleol	Isel	Isel	Haws
Sicrhau bod deunyddiau athraidd a dulliau storio dŵr yn cael eu hymgorffori i feysydd parcio newydd	Isel	Uchel	Canolradd
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Gadewch ran o'ch gardd yn wyllt, crëwch gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a phlannwch goed er mwyn amsugno carbon deuocsid. https://www.wildlifetrusts.org/actions			

Ymunwch â grŵp “Friends of” er mwyn cymryd rhan yn rheoli mannau gwyrdd cynaliadwy, neu er mwyn darganfod mwy ynglŷn â grwpiau lleol sy’n gwneud garddio a thyfu cymunedol. https://www.farmgarden.org.uk/
Ceisiwch leihau eich milltiroedd bwyd gan brynu bwyd sydd wedi’i dyfu’n lleol lle bo’n bosib ac yn ei dymor.
Meddyliwch am ble y mae’r cig yr ydych yn ei brynu yn dod a dewiswch ddeiet amrywiol gyda digonedd o ffrwyth a llysiau
Cymrwch ran mewn rhandiroedd cymunedol neu sefydlwch randir newydd a chymrwch dro yn tyfu eich ffrwyth a llysiau eich hun. https://www.theallotmentgarden.co.uk/Easier-grow/



Yr hyn yr ydym yn ei brynu

Yr hyn yr ydym yn ei Brynu

Lleihau carbon gan feddwl yn ofalus ynglŷn â phryd a beth yr ydym yn ei brynu a'r gost holl fywyd

Gweithred i leihau allyriadau CSF	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Cael gwared ar blastig untro o fewn y cyngor	Isel	Isel	Haws
Cael gwared ar fuddsoddiadau tanwydd ffosil yn raddol o'n cronfa bensiwn	Uchel	Uchel	Anos
Bydd pob dogfen tendro'n cynnwys meini prawf er mwyn mynd i'r afael ag ymrwymadau argyfwng hinsawdd	Isel	Isel	Canolradd
Ymgorffori hinsawdd a datgarboneiddio i mewn i gydweithrediadau caffael strategol	Isel	Isel	Canolradd
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Meddyliwch am faint yr ydych yn ei brynu ac os oes wir ei angen arnoch chi.			
Pan fyddwch yn prynu bwyd, meddyliwch am fwyd lleol, yn ôl y tymor, ac am becynnau sydd wedi'u lleihau a bod modd eu hailgylchu			
Cefnogwch eich siop elusen leol a phrynwch ail law, neu defnyddiwch gynllun megis Freecycle https://www.freecycle.org/			
Ystyriwch brynu "profiadau" i bobl fel anrhegion, neu anrhegion elusennol sy'n cefnogi prosiectau adnewyddadwy, yn hytrach na phrynu anrhegion nid oes eu heisiau neu eu hangen. https://www.oxfam.org.uk/shop/oxfam-unwrapped			



Lleihau gwastraff

Gan annog pobl i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy

Gweithred i leihau allyriadau CSF	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu ym mhob man gyhoeddus gan gynnwys canolfannau manwerthu	Isel	Canolradd	Canolradd
Lleihau gwastraff fwyd mewn ysgolion	Isel	Canolradd	Anos
Gweithred i leihau allyriadau'r Sir	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Gwneud ein hadeiladau i gyd yn orsafoedd ailenwi dŵr	Isel	Isel	Haws
Cefnogi, hyrwyddo ac ehangu'r Caffis Atgyweirio a'r mudiad Uwchgylchu	Isel	Isel	Haws
Sefydlu siopau ailddefnydd ar safleoedd Gwastraff Tŷ, ac ailddefnyddio'r refeniw i ariannu plannu coed	Isel	Canolradd	Canolradd
Cynyddu 'lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu' ledled y sir	Canolradd	Canolradd	Canolradd
Adeiladu cyfleuster ailgylchu o ansawdd uchel yng nghanol Sir Fynwy	Canolradd	Uchel	Canolradd
Gorfodi pob cartref i ailgylchu	Isel	Canolradd	Anos
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Darganfyddwch a defnyddiwch bob math gwahanol o ailgylchu bod Sir Fynwy'n ei wneud. https://www.monmouthshire.gov.uk/recycling-and-waste/			
Darganfyddwch ryseitiau ac awgrymiadau ynglŷn â defnyddio bwyd a lleihau gwastraff bwyd https://lovefoodhatewaste.com			
Defnyddiwch boteli dŵr gellir eu hail-lenwi, a chynwysyddion gellir eu haildefnyddio ar gyfer eich cinio. https://refill.org.uk/			
Ceisiwch dorri lawr ar blastig untro. https://www.sas.org.uk/plastic-free-communities/			
Edrychwch ar ôl eich dillad a pheidiwch â phrynu ffasiwn dafladwy. https://www.loveyourclothes.org.uk/			
Rhoddwch ddillad nad ydych eu heisiau, bric a brac, llyfrau, dodrefn ayyb i'ch siop elusen leol er mwyn lleihau tirlenwi ac i helpu codi arian.			



Cerdded a seiclo

Annog a'i gwneud hi'n haws i bobl cerdded a seiclo yn hytrach na gyrru

Gweithred i leihau allyriadau CSF	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Gwella ac ehangu ein rhwydwaith troedffordd a seiclo	Canolradd	Uchel	Canolradd
Datblygu cynllun rhannu beiciau	Isel	Canolradd	Canolradd
Gosod cludwyr beiciau ar fysys er mwyn annog seiclo	Isel	Canolradd	Canolradd
Cyflwyno cyfraddau milltiroedd seiclo i staff er mwyn hyrwyddo teithio llesol dros deithiau car	Isel	Isel	Haws
Lleihau'r milltiroedd a deithir gan staff gan 25% erbyn 2023 trwy ddefnydd technoleg	Canolradd	Canolradd	Canolradd
Gweithred i leihau allyriadau'r Sir	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Datblygu beiciau trydanol a chynlluniau llogi beiciau yn dechrau yng nghanol trefi	Isel	Canolradd	Canolradd
Datblygu cynlluniau bydd yn cynyddu seiclo a cherdded i'r ysgol	Canolradd	Canolradd	Canolradd
Cyflwyno dim segura yn agos i ysgolion, a lleoliadau addas eraill	Isel	Isel	Haws
Cynyddu'r cyfleoedd am deithio llesol cymaint â phosib, gan sicrhau bod llwybrau'n ddiogel ac yn gyfleus	Canolradd	Isel	Canolradd
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Ceisiwch gerdded am deithiau byr, sy'n lleihau carbon yn ogystal â'ch gwneud yn heini ar yr un pryd!			
Ffeindiwch mas am lwybrau seiclo a grwpiau seiclo lleol a neidiwch ar eich beic. https://www.sustrans.org.uk/national-cycle-network/			
Ymunwch â rhieni a'ch ysgol leol er mwyn datblygu bws cerdded i gerdded eich pobl bach i'r ysgol.			
Cymrwch ran mewn cyfleoedd gwirfoddol hawliau tramwy cyhoeddus https://volunteer.monmouthshire.gov.uk/			
Gofynnwch i'ch cyflogwr os allen nhw gynnig cawodydd a loceri fel bod modd i chi seiclo i'r gwaith.			



Cerbydau mwy gwyrdd

Lleihau effaith defnydd cerbydau ac annog defnydd cerbydau trydan a hydrogen

	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Gweithred i leihau allyriadau CSF			
Cyflwyno cynllun teithio gwyrdd am deithiau staff a chynghorwyr	Isel	Isel	Haws
Cynyddu cyfraddau milltir y talir i staff sy'n defnyddio cerbydau trydanol i gymharu â cheir petrol a disel	Isel	Isel	Haws
Gosod pwyntiau gwefru EV ym mhob adeilad cyngor mwy o faint	Isel	Uchel	Canolradd
Trosglwyddo fflyd drafnidiaeth y cyngor i gerbydau hybrid, trydanol a hydrogen wrth i'r rhain ddod ar gael	Canolradd	Canolradd	Canolradd
Gweithred i leihau allyriadau Sir	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Cynnig parcio am ddim mewn meysydd parcio CSF ar gyfer ceir trydanol a hydrogen tan 2025	Isel	Uchel	Canolradd
Annog defnydd taccis trydanol neu hybrid	Isel	Isel	Anos
Defnyddio gorfodaeth parcio a chyflymder er mwyn atal tagfeydd traffig a lleihau llygredd aer	Isel	Isel	Anos
Lansio'r rhagbrawf car hydrogen Riversimple yn Y Fenni	Isel	Uchel	Canolradd
Datblygu cynigion am wefru ceir trydanol ar oleuadau stryd a datblygiadau tai newydd	Canolradd	Uchel	Canolradd
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Ceisiwch rannu car pan fo modd er mwyn arbed tanwydd ac arian. Mae yna gynlluniau i helpu. https://liftshare.com/uk			
Os ydych yn ystyried newid eich cerbyd, meddyliwch a fyddai car trydanol yn gweithio i chi. Mae yna grantiau gall helpu. https://www.energysavingtrust.org.uk/transport/electric-cars-and-vehicles/electric-vehicles			



Trafnidiaeth gyhoeddus

Annog pobl i ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir

Gweithred i leihau allyriadau CSF	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Datblygu achos busnes i symud tuag at fflyd bws drydanol	Isel	Uchel	Canolradd
Treialu datrysiadau digidol ar gyfer cynlluniau trafniadaeth cenedl nesaf sy'n gwneud defnydd gwell o allu trafniadaeth sy'n bodoli eisoes;	Canolradd	Uchel	Anos
Gweithred i leihau allyriadau Sir	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Annog newidiad moddol trwy Fetro De Cymru	Uchel	Uchel	Anos
Parhau i wneud achos i lywodraethau cenedlaethol am amlderau trên a darpariaeth orsaf gwell	Isel	Canolradd	Canolradd
Datblygu cynllun 'Uber Cefn Gwlad' sydd wedi'i gysylltu â gorsafoedd trên	Canolradd	Uchel	Canolradd
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Darganfyddwch opsiynau trafniadaeth gyhoeddus gallent weithio ar eich cyfer. https://www.traveline.cymru/			
Os ydych yn 16 i 21 mlwydd oed gallwch dderbyn gostyngiadau trafniadaeth fws. https://mytravelpass.gov.wales/en/			
Os ydych yn 16 i 25 mlwydd oed gallwch ymgeisio am gerdyn reilffordd person ifanc. https://www.16-25railcard.co.uk/			
Mae yna basys bws rhatach ar gael oddi wrth Drafniadaeth Cymru. https://tfw.gov.wales/			



Addysg a chymryd rhan

Helpu pobl i ddeall newid hinsawdd a'r hyn y gallent eu gwneud er mwyn gwneud gwahaniaeth

Gweithred i leihau allyriadau CSF	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Gwneud data egni ar gael mewn ysgolion ac annog disgyblion i gymryd rhan mewn rheoli defnydd egni	Isel	Isel	Haws
Cyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon i bob aelod o staff y cyngor	Isel	Isel	Canolradd
Newid peiriant chwilio diofyn y cyngor i Ecosia, sy'n plannu coeden am bob ymchwiliad a wneir	Isel	Isel	Haws
Gweithred i leihau allyriadau Sir	Lleihau CO2	Cost i Drethdalwyr	Dichonoldeb
Gweithio gyda grwpiau cymunedol er mwyn datblygu rhwydwaith synhwyrdd "Rhyngwrwyd Pethau" er mwyn hysbysu penderfyniadau ac addysgu cymunedau lleol	Canolradd	Canolradd	Anos
Dechrau cynlluniau tyfu a choginio lleol mewn ysgolion	Isel	Canolradd	Haws
Defnyddio ein Canolfan Un Blaned fel ffocws addysg newid hinsawdd	Isel	Isel	Haws
Beth allaf ei wneud i chwarae fy rhan?			
Cymrwch ran ym Mhwyllgor Eco eich ysgol, neu os nad Ysgol Eco yw eich ysgol, darganfyddwch mwy a gofynnwch iddynt a fyddant yn ei ystyried. https://www.keepwalestidy.cymru/pages/category/eco-schools			
A yw eich gweithle wedi gosod system ailgylchu neu elfen amgylcheddol arall? Beth am geisio dechrau rhywbeth?			
Cymrwch ran gydag un o'r nifer o grwpiau gwirfoddol yn Sir Fynwy sy'n gwneud gwaith gwych yn erbyn newid hinsawdd. https://www.transitionchepstow.org.uk/ https://transitionmonmouth.org/ http://abergavennytransition.org/ https://www.facebook.com/AbergavennyExtinctionRebellion/			

Cyfeirnodau

¹<https://www.ipcc.ch/2018/10/08/summary-for-policymakers-of-ipcc-special-report-on-global-warming-of-1-5c-approved-by-governments/>